



Swyddfa Bangor | Bangor Office
11 Llys Castan | 11 Chestnut Court
Ffordd y Parc
Parc Menai
Bangor
Gwynedd
LL57 4FH

Ffôn | Tel: 01248 679 284
Ebost | Email: admin@waleschc.org.uk

15 Ionawr 2021 / 15 January 2021

Annwyl Aelod / Dear Member

Cynhelir Cyfarfod Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru yn defnyddio 'Zoom' ar ddydd Mawrth 26 Ionawr 2021 am 10.00yb.

<https://us02web.zoom.us/j/81193692039?pwd=UnBwTnVleXdSUGFhL0VTdUIESXpTdZ09>

Dalier sylw na fydd unrhyw eitemau yn cael eu hystyried o dan y pennawd 'Unrhyw Fater Arall' oni bai fod y Cadeirydd yn ystyried eu bod yn faterion brys a bod rhybudd ohonynt wedi ei roi a'i dderbyn yn swyddfa CIC erbyn dydd Gwener 22 Ionawr 2021, fan bellaf.

Cofiwch fod croeso i chi ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y cyfarfod - bydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael.

.....

The Meeting of North Wales Community Health Council will be held using 'Zoom' on Tuesday 26 January 2021, at 10.00am.

<https://us02web.zoom.us/j/81193692039?pwd=UnBwTnVleXdSUGFhL0VTdUIESXpTdZ09>

Please note that no items will be considered under 'Any Other Business' unless they are considered by the Chair to be urgent and unless notice of them has been received at the CHC office by no later than Friday 22 January 2021.

Please remember that you are welcome to use the Welsh language at the meeting – simultaneous translation facilities will be available.

Yn gywir iawn / Yours sincerely

Geoff Ryall Harvey
Prif Swyddog / Chief Officer



Rydym yn croesawu gohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg byddwn yn ateb yn Gymraeg, ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth
We welcome correspondence through the medium of both Welsh and English. If you write to us in Welsh we will answer in Welsh, this will not lead to a delay in responding to your correspondence

Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru yw enw gweithredol Cyngor Iechyd Cymuned Betsi Cadwaladr
North Wales Community Health Council is the operational name of the Betsi Cadwaladr Community Health Council

Bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal yn ddwyieithog gyda chymorth cyfieithu ar y pryd. Mae croeso i chi gyfrannu naill ai mewn Cymraeg neu Saesneg.

<https://us02web.zoom.us/j/81193692039?pwd=UnBwTnVleXdSUGFhL0VTdUIESXpTdZ09>

Rhowch wybod i'r Cadeirydd am Unrhyw Fusnes Arall cyn dechrau'r cyfarfod.

<u>COFNOD</u>	<u>EITEM</u>	<u>ATOD</u>	<u>AMSER</u>
FC21.01	CROESO		10.00am
FC21.02	YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB		
FC21.03	DATGANIAD DIDDORDEB I dderbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw aelod mewn perthynas ag unrhyw eitem ar yr agenda		
FC21.04	CYFLWYNIAD Bydd Mr Mike Smith, Cyfarwyddwr Nyrsio Dros Dro Iechyd Meddwl BIPBC ac Mr Iain Wilkie Cyfarwyddwr Dros Dro Iechyd Meddwl BIPBC yn bresennol i roi cyflwyniad ar y "Blaenoriaethau yr is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu"	Llafar	10:10am
FC21.05	DIWEDDARIAD AR GYNNYDD AR Y BIL I SEFYDLU SEFYDLIAD LLAIS DINESYDDION NEWYDD 21.05(1) I dderbyn diweddariad mewn perthynas â chynnydd ar y Bil	Llafar	11.30am
FC21.06	DIWEDDARIAD CADEIRYDD A PHRIF SWYDDOG 21.06(1) Gwasanaethau Iechyd Meddwl 21.06(2) Gwasanaethau Fasgwlaidd 21.06(3) Covid-19 a Rhaglen Brechu 21.06(4) Llawfeddygeth a chymorth Robotig	Llafar Llafar Llafar Llafar	11.40am
FC21.07	COFNODION I dderbyn a chymeradwyo cofnodion: - 21.07(1) Y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 29 Medi 2020 21.07(2) Materion sy'n Codi nad ydynt ar yr Agenda trwy eithriad	Atod 01 Llafar	12.05pm
FC21.08	CYNLLUN GWEITHREDU CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A HAWLIAU DYNOL CICGC 21.08(1) I dderbyn diweddariad Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol Ebrill 2019 - Mawrth 2020	Llafar	12.15pm
F21.09	YR IAITH GYMRAEG 21.09(1) Safonau'r Iaith Gymraeg	Llafar	12.25pm
FC21.10	UNRHYW FATER ARALL	Llafar	12.30pm
FC21.11	DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF Dydd Mawrth, 30 Mawrth 2021, 10.00am bydd y Cyfarfod Arferol yn dilyn y Cyfarfod Blynnyddol Cyffredinol		

**Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru a gynhaliwyd drwy Zoom
ar ddydd Mawrth, 29 Medi 2020, am 10.00 o'r gloch
Cadeirydd Dros Dro: Mr Andy Burgen i Eitem FC20.14 ar y Rhaglen
Cadeirydd: Mrs Jackie Allen o Eitem FC20.14 ar y Rhaglen**

YN BRESENNOL:			
PWYLLGOR LLEOL CONWY	Joy Baker Frank Bradfield	Phil Capper Sian Ramessur	John Roberts
PWYLLGOR LLEOL SIR DDINBYCH	Karen Bellis Kelly Benton Rhys Davies	Eva Edwards Gordon Hughes	Cheryl Williams Emrys Wynne
PWYLLGOR LLEOL SIR Y FFLINT	Di Gill Linda Harper	Gladys Healey Stella Howard	David Wisinger Rita Jones
PWYLLGOR LLEOL GWYNEDD	Adrian Drake-Lee Vicki Harvey	Michael Lloyd-Jones Dewi-Wyn Roberts	Paul Rowlinson
PWYLLGOR LLEOL WRECSAM	Jackie Allen Celia Hayward Frank Hemmings	Gwenfair Jones Adrian Leslie	Niki Tabern-Price Jayne Thomas
PWYLLGOR LLEOL YNYS MÔN	Richard Bladon Andy Burgen Sadie Francis	Glyn Haynes Aaron Osborne-Taylor	Dylan Rees
AELODAU CYFETHOLEDIG	Brace Griffiths Garth Higginbotham	Mair Jones Morfudd Jones Christopher Phillips	Mike Theaker Mark Thornton
Staff	Eleri Ellis Rebeca Hughes Cerys Jones Carol Williams	Eiriolydd Cwynion Swyddog Rheoli Swyddog Rheoli Dirprwy Brif Swyddog	
YN MYNYCHU:	Geoff Ryall-Harvey Sue Irlam John Darlington Gwynfor Owen Mark Wilkinson	Prif Swyddog Ysgrifenyddiaeth Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cynllunio Corfforaethol BIPBC Cyfieithydd Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad BIPBC	
YMDDIHEURIADAU:			
CONWY	Liz Liddall Hilary Randall	Jo Reeve	Roger Williams
SIR DDINBYCH	Angela Marshall	Neil Taylor	
SIR Y FFLINT	Michael Boyle	David Mackie	
GWYNEDD	John Jones	Vera Wilson	
WRECSAM	Sandra Baughan		
YNYS MÔN	Deborah Chafer	Trefor Lloyd-Hughes	Val Monaghan

STAFF	Lucy Barker Bev Davies Ross Duffield	Allison Hughes Debra Jones Debbie Postle	Jill Scupham Rachel Valentine
DDIM YN BRESENNOL	Myfanwy Baines Jon Chorlton Dot Griffiths	Russell Jackson Linda Kinani	Gill Williams Menna Williams

COFNOD	EITEM	GWEITHREDU
FC20.12	CROESO Croesawodd y Cadeirydd Dros Dro bawb i'r cyfarfod. Nodwyd mai dyma oedd cyfarfod cyntaf y Cyngor Llawn i'w gynnal drwy Zoom; atgoffwyd yr aelodau beth oedd y drefn gyda chyfarfodydd o bell ac y dylid tewi'r microffonau pan nad oeddent yn siarad.	
FC20.13	CADARNHAU CANYLYNIAD YR ETHOLIAD I SWYDD Y CADEIRYDD A'R IS-GADEIRYDD 2020-2021 Aeth y Prif Swyddog ymlaen i gyhoeddi canlyniad yr etholiad diweddar drwy'r post i swyddi'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd. <ul style="list-style-type: none"> • Roedd un ymgeisydd ar gyfer swydd y Cadeirydd; roedd Jackie Allen wedi sefyll yn ddi-wrthwynebiad. Dychwelwyd 28 pleidlais bost i gadarnhau penodiad Jackie Allen yn Gadeirydd CICGC tan y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhelir ar 30 Mawrth 2021. • Roedd dau ymgeisydd ar gyfer swydd yr Is-gadeirydd; Andy Burgen a Celia Hayward. Dychwelwyd 28 papur pleidleisio. Derbyniodd Andy Burgen 18 pleidlais; a chafodd Celia Hayward 10 pleidlais. Yn unol â hyn, penodwyd Andy Burgen yn Is-gadeirydd CIC Gogledd Cymru tan y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhelir ym mis Mawrth 2021. • Diolchodd Jackie Allen, Cadeirydd newydd CICGC, i'r aelodau oedd wedi cadarnhau ei phenodiad ac aeth ymlaen i nodi y byddai'n parhau i gynrychioli cleifion gogledd Cymru. Diolchodd hefyd i Andy Burgen am weithredu fel Cadeirydd Dros Dro yn dilyn ymddiswyddiad Peter Rendle. • Nododd Andy Burgen hefyd ei ddiolch i'r aelodau oedd wedi pleidleisio drosto. Diolchodd am y gefnogaeth a dderbyniodd yn ystod ei gyfnod byr fel Cadeirydd Dros Dro. 	
	<ul style="list-style-type: none"> • Cyn symud ymlaen i'r rhaglen, esboniodd y cyfieithydd sut roedd y gwasanaeth cyfieithu yn gweithio ar Zoom. 	
FC20.14	YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB Derbyniwyd ymddiheuriadau ac maent fel y'i cofnodwyd	
FC20.15	DATGANIAD O FUDDIANT Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant o safbwynt unrhyw eitem ar y rhaglen.	
FC20.16	CYFLWYNIAD Roedd Mark Wilkinson, Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad BIPBC, a John Darlington, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cynllunio BIPBC, yn bresennol i roi diweddariad o ran y camau gweithredu a gyflawnwyd hyd yma ynghyd â chynllunio ar gyfer chwarteri tri a phedwar. Mae copi o'r	

	<p>cyflwyniad yn atodol i'r cofnodion hyn. Gwnaed y pwyntiau canlynol yn benodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diolchwyd i'r Cyngor Llawn am y cyfle i gyflwyno diweddariad BIPBC, nodwyd ei fod yn gyfle da i glywed ac i wrando ar farn ac adborth aelodau CICGC. • Gwelwyd newidiadau na welwyd eu tebyg mewn gofal iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau trydydd sector oherwydd y pandemig. • Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweld heriau sylweddol yn y ffordd y cyflawnir ei wasanaethau; mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau newydd fel profi ac olrhain. • Mae'r amgylchedd yn newid yn gynyddol gyda chynllunio hyblyg i ddelio gyda chyflymder y newid â'r feirws a drosglwyddir mor hawdd. • Roedd nifer y cleifion oedd heb fod yn arddangos symptomau yn uwch na'r hyn a gredwyd i ddechrau, ac roedd hyn yn broblemus. • Roedd gwybodaeth feddygol a datblygiadau o ran meddyginiaeth yn datblygu. • Roedd yr holl ysbytai maes yn cynnwys darpariaeth ocsigen wedi ei beipio i drin cleifion COVID-19; nid oedd y gofynion ocsigen ddim fel y rhai a ragwelwyd gan fod y feirws wedi newid ac esblygu. • Bu heriau o ran profi a diagnostig, gyda rhai cleifion yn profi yn bositif ar ôl cael swab a hwythau wedi cael prawf negyddol yn flaenorol. Er bod gwaith yn parhau i ddatblygu brechiad, nid oes unrhyw ddyddiad ynglŷn â phryd y bydd ar gael. • Er yr heriau mae'r pandemig yma wedi eu cyflwyno, bu hefyd nifer o newidiadau cadarnhaol ac roedd y bwrdd iechyd yn dymuno cadw'r rhain gan adeiladu arnynt. • Bu camau ymlaen gyda thechnoleg digidol; mae ymgynghori a chysylltu yn caniatáu i ymarferwyr gofal sylfaenol i siarad gyda chlinigwyr o bell, tra bo'r fenter 'Attend Anywhere' yn hwyluso apwyntiadau o bell i gleifion allanol. • Roedd y bwrdd iechyd hefyd wedi llwyddo i recriwtio 1000 o staff ychwanegol i'r sefydliad. • Roedd nifer yr achosion COVID-19 yn y gymuned yn cynyddu unwaith eto; gellid priodoli'r cynnydd i ymlacio'r rheolau pellter cymdeithasol, ail-agor y diwydiant lletygarwch a/neu disgyblion a myfyrwyr yn dychwelyd i leoliadau addysgol. • Mae lefel yr heintio fesul 100,000 o'r boblogaeth yn parhau yn isel yn ardal Gorllewin BIPBC, ond roedd yn cynyddu yn y Canol ac yn y Dwyrain. • Mae niferoedd y cleifion mewnol yn parhau yn isel, gan nad yw'r achosion newydd a gadarnhawyd wedi eu trosglwyddo i fod yn gleifion yn yr Ysbyty. Ar hyn o bryd, mae 30 o gleifion gyda COVID mewn ysbytai ar draws gogledd Cymru. • Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymchwilio i weld os yw cleifion wedi cael eu niweidio o ganlyniad i weithgaredd oedd ddim yn gysylltiedig â gweithgareddau COVID. Er bod nifer y cleifion sy'n aros am driniaethau wedi cynyddu oherwydd atal gwasanaethau nad ydynt yn rhai brys neu yn hanfodol, ni welwyd bod niwed sylweddol. 	
--	---	--

- Mae tystiolaeth bod niwed wedi ei achosi gan y cyfnod clo ehangach er enghraifft materion iechyd meddwl.
- Roedd Cynllun Atal ac Ymateb yn ei le ar draws gogledd Cymru ac roedd hyn yn cynnwys y bwrdd iechyd, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill er mwyn gallu rheoli digwyddiadau lleol o'r feirws.
- Bydd ffocws ar raglen gadarn o frechiadau ffliw. Bydd BIPBC hefyd yn darparu cefnogaeth i gartrefi gofal gan ddatblygu ei gynlluniau gaeaf i gynnwys chwyddiant posib mewn galw oherwydd y cynnydd mewn achosion COVID-19.
- Fel rhan o'r cynlluniau i ddelio gyda heriau parhaus COVID-19, roedd Profi, Olrhain a Diogelu (TTP) wedi cael ei weithredu. Er mai'r bwrdd iechyd oedd yn arwain ar hyn roedd gan awdurdodau lleol ran hanfodol i'w chwarae.
- Hyd yma, roedd TTP yng ngogledd Cymru wedi bod yn llwyddiannus yn cysylltu gyda 90% o'r cysylltiadau cyn pen 24 awr yn ogystal â chysylltu gyda 80% o'u cysylltiadau.
- Mewn blynyddoedd blaenorol roedd 60% wedi cymryd y brechiad ffliw ar draws ardal BIPBC; disgwylir bydd y nifer fydd yn ei dderbyn yn uwch eleni. Roedd aelodau o'r cyhoedd sy'n gymwys i dderbyn y brechiad ffliw yn cael eu hannog i gael eu brechiad ffliw cyn gynted ag y gallant gan fod angen bwllch o 28 diwrnod rhwng derbyn brechiad ffliw ac unrhyw frechiad llwyddiannus COVID-19.
- Mae BIPBC yn cynllunio i gael y cynlluniau brechu yn eu lle erbyn canol mis Tachwedd ar gyfer y posibilrwydd o frechiad COVID-19 o ddiwedd mis Tachwedd. Roedd yn edrych i weld sut y gellir cyflawni hyn drwy ddefnyddio lleoliadau gofal sylfaenol, canolfannau brechu penodol a'r ysbytai maes. Byddai unrhyw frechiad yn cael ei ddarparu i bobl gyda risg uchel ac i staff iechyd a gofal cymdeithasol cyn ei gyflwyno i'r boblogaeth yn gyffredinol – yn amodol i gael ei gymeradwyo yn ddiogel drwy ddefnyddio cyrff rheoleiddio.
- Bydd pobl dros 50 oed yn yr ail haen o raglen frechu COVID-19; byddai hyn yn heriol oherwydd nifer y boblogaeth yn y categori hwnnw h.y. dros 300,000.
- Wynebodd y sector gofal heriau sylweddol yn ystod ton gyntaf y pandemig; i leddfu problemau tebyg yn yr ail don mae BIPBC wedi ymrwymo i ddarparu PPE.
- Os yw cartrefi gofal yn cael eu gorfodi i gau gallai hyn achosi oedi cyn rhyddhau cleifion sydd angen gofal i wella. Gall llwybrau rhyddhau hefyd gael eu amharu oherwydd yr angen i gleifion fod yn glir o COVID-19 am 14 diwrnod ar ôl prawf COVID, cyn eu rhyddhau.
- Gostyngodd y galw am wasanaethau gofal heb eu trefnu yn sylweddol ar ddechrau'r pandemig. Erbyn hyn, mae'r galw am ofal heb ei drefnu bellach yn cynyddu ond nid oedd ar yr un lefel ag yr oedd cyn COVID 19.
- Gwelwyd hefyd bod cleifion a fyddai fel arfer wedi dod i'r Adran Frys heb gael eu niweidio drwy beidio mynd yno.
- Rhagwelir y bydd gostyngiad tebyg o ran mynychu pan a phryd fo'r ail benllanw yn digwydd.

- Mae modelu yn dangos y gall niferoedd y fflw tymhorol fod yn llai na'r arferol oherwydd effaith cadw pellter cymdeithasol. Gall lledaeniad yr annwyd hefyd fod yn llai oherwydd gwell hylendid dwylo.
- Mae'r fenter 'Ffonio yn Gyntaf' yn flaenoriaeth ar gyfer y llwybr gofal heb ei drefnu. Mae angen i gleifion ffonio'r Adran Frys cyn iddynt fynd yno, roedd hyn yn cael ei dreialu ar hyn o bryd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.
- Bydd BIPBC yn defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'r peilot yma i gyflwyno'r fenter yn ehangach; nodwyd y byddai cleifion yn cael eu trin os fyddent yn mynd i'r Adran Frys heb fod wedi ffonio ymlaenllaw.
- Mae ysbytai maes dros dro yn ardal BIPBC wedi creu 980 o welyau ychwanegol ac yn ffurfio rhan o gynlluniau 'ymchwydd' BIPBC. Bydd staffio'r gwelyau ychwanegol hyn yn her ac mae modelu ar gyfer y galw yn digwydd ar y funud.
- Blaenoriaethau BIPBC am y 6 mis nesaf yw darparu gofal dan 'wasanaethau hanfodol' i ddarparu gofal diogel heb ei drefnu; i wella gwasanaethau iechyd meddwl i ddarparu amgylchedd diogel a saff i gleifion a staff; ac i ddefnyddio adnoddau yn effeithiol.
- Mae BIPBC wedi ail-ddechrau ei raglen o ofal wedi'i gynllunio, gan ail-gychwyn gwasanaethau pan a phryd ei bod yn ddiogel i wneud hynny gan sicrhau nad oes unrhyw niwed yn cael ei achosi; fe wneir hyn drwy ddilyn egwyddorion 'gwasanaethau hanfodol'.
- Bydd agwedd glinigol at y llwybr gofal wedi'i gynllunio i chwarter 3 a 4 i sicrhau bod y cynlluniau yn addas i'r pwrpas; bydd hefyd ffofws ar gyflawni gofal yn nes at adref.
- Mae BIPBC yn ymchwilio i'r posibilrwydd o fuddsoddi mewn canolfan ddiagnostig a thriniaeth i ostwng nifer y bobl sydd wedi bod yn aros yn hir am driniaethau. Mae hefyd yn ystyried sut i ymdrin â'r ôl-groniad o gleifion sy'n aros am sganiau CT, MRI ac uwchsain drwy ddefnyddio unedau symudol.
- Mae BIPBC yn parhau i adeiladu ar ei waith gofal sylfaenol o ran GMS, Offthalmoleg a Fferyllfa yn unol â chynlluniau Llywodraeth Cymru. Bydd cleifion yn cael eu brasbennu a'u trin yn unol â gofynion clinigol; bydd anghenion mynediad y cleifion hefyd yn cael eu hystyried.
- Bydd cynlluniau gwasanaethau cymunedol yn cael eu datblygu mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol, y trydydd sector a rhan-ddeiliaid eraill, i sicrhau bod y gwasanaethau yn ddiogel a gwydn.
- Rhoddir cefnogaeth i ofal sylfaenol i reoli'r galw am wasanaethau iechyd meddwl; rhoddir cefnogaeth ychwanegol i'r Adran Frys a fedr hefyd weld cynnydd yn y galw o ran cleifion yn cyflwyno eu hunain gyda chyflwr iechyd meddwl. Bydd anghenion iechyd meddwl y rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau iechyd a gofal hefyd yn cael eu hystyried dan y cynlluniau i wasanaethau iechyd meddwl.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddigideiddio nodiadau cleifion mewn lleoliadau aciwt.
- Bydd buddsoddi mewn stadau hefyd yn helpu i gyflawni gofal yn

ddiogel gyda chreu Ysbyty gogledd Sir Ddinbych, gwaith i isadeiledd Ysbyty Maelor, datblygu Uned Ablett a gwaith ar isadeiledd Ysbyty Gwynedd. Mae hefyd angen gwneud gwelliannau i'r llety preswyl i staff.

- Fel mae nifer yr achosion cadarnhaol o COVID-19 yn dechrau cynyddu eto, mae ymgysylltu gyda'r cyhoedd yn gyffredinol yn parhau o'r pwysigrwydd pennaf.
- Mae dilyn y canllaw, fel a gofynnwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn hanfodol i ostwng digwyddiadau yn y dyfodol.

Mewn ymateb i gwestiynau derbyniwyd y sylwadau isod:

- Gofynnir am y manylion am ail-ddechrau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Gwasanaethau Deintyddol Cymunedol gan rannu'r wybodaeth gyda'r aelodau drwy'r swyddfa. Mae gwasanaethau deintyddol ehangach yn rhan o'r cynlluniau cymunedol mae BIPBC yn eu datblygu.
- Gofynnir am ragor o fanylion am niferoedd staff BIPBC sydd yn cysgodi a'r staff hynny sydd heb eu hadleoli ac felly ddim yn gallu gweithio - gan rannu'r wybodaeth gyda swyddogion presennol BIPBC er mwyn ymdrin â hyn. Mae BIPBC wedi ceisio hwyluso gweithio o gartref i staff. Sefydlwyd gweithgor 'Agile and Safe' i edrych ar sut mae staff yn gallu gweithio yn ddiogel.
- Mae nifer y cyfeiriadau gofal wedi eu cynllunio wedi cynyddu i bron yr un lefel ag oeddent cyn COVID. Mae'n heriol sicrhau y gellir cyflawni'r gofal wedi ei gynllunio mewn amgylchedd diogel o ran COVID. I sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, mae gwelyau wedi cael eu tynnu ac mae trefniadau glanhau wedi gwella. Yn flaenorol, byddai arian afreolaidd wedi cael ei sicrhau gan LIC i ymdrin â ôl-groniat cleifion; oherwydd y pandemig bydol mae'r arian sydd ar gael gan LIC yn llai sicr. Nodwyd bod gwaith i ostwng ôl-groniat cleifion yn ymdrech drwy'r flwyddyn yn hytrach na ymdrech fisol.
- Mae gan Prifysgol Bangor ei rhaglen brofi ei hun i'r myfyrwyr hynny sy'n dychwelyd neu'n cyrraedd y campws am y tro cyntaf. Ni wyddom os fydd Prifysgol Glyndŵr hefyd yn cynnal ei rhaglen brofi ei hun. Cytunodd Mark Wilkinson a John Darlington i gadarnhau trefniadau profi ym Mhrifysgol Glyndŵr gan adrodd yn ôl. Mae cynlluniau atal ac ymateb hefyd yn eu lle i brifysgolion.
- Os yw myfyrwyr yn mynd yn sâl dylent geisio cyngor meddygol drwy eu Meddyg Teulu, fel y man cyswllt cyntaf.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno canllaw ynglŷn â phwy ddylai gael eu profi.
- Lleolir Canolfannau Profi COVID-19 yn y gymuned, os oes angen profi; cydnabyddir efallai y bydd angen i rai fydd angen prawf COVID orfod teithio.
- O nodi'r cynydd tebygol yn y galw am frechiadau fflw, cadarnhawyd bod y bwrdd iechyd wedi cynllunio i nifer uwch dderbyn brechiad.
- Ni wyddom os yw'r brechiad fflw hefyd yn rhoi peth amddiffyniad rhag COVID-19 gan fod y feirws yn esblygu yn gyson.
- Oherwydd y galw am y brechiad fflw, bydd aelodau o'r cyhoedd yn

MWIJD

BM/MWIJD

MWIJD

	<p>yr oedran 50 i 65 efallai yn gorfod aros tan fo'r rhai dros 65 a'r rhai gyda chyflyrau iechyd gwaelodol wedi cael y brechiad fflwiw. Ar hyn o bryd ni wyddom os yw BIPBC yn dod a'r rhaglen brechu rhag fflwiw ymlaen i rai yn yr ystod oedran 50 – 65 oed.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyn i'r fenter 'Ffoniwch yn Gyntaf' gael ei chyflwyno yng ngogledd Cymru, bydd BIPBC yn sicrhau bod y cyhoedd yn hollol ymwybodol sut i gael mynediad i'r gwasanaeth a bydd BIPBC yn edrych ar CICGC efallai i rannu manylion ar sut i gael gwybodaeth a mynediad iddo. • Cadarnhawyd bod yr un swab yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y trwyn a'r gwddw wrth gynnal prawf COVID. • Er mai dim ond cofnodion cleifion mewn lleoliad aciwt fydd yn cael eu digideiddo ar hyn o bryd, dylai'r system ganiatáu mynediad 'darllen yn unig' i'r Meddygon Teulu i weld y cofnodion hyn. • Roedd elfen o allu rhyngweithredu gyda chofnodion cleifion wedi eu digideiddo ac felly dylent fod ar gael ar safleoedd trydyddol a ddefnyddir gan gleifion o Gymru fel Canolfan Walton. • Mae cynlluniau BIPBC o ran COVID-19 ar gael yn gyhoeddus ar wefan BIPBC ac yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd cyhoeddus. <p>Diolchodd y Cadeirydd i Mark Wilkinson a John Darlington am ddod. Os oes gan yr aelodau ragor o gwestiynau gellir eu hanfon i swyddfa CIGGC i'w hanfon ymlaen at BIPBC i gael ymateb.</p>	
<p>FC20.17 20.17(1)</p>	<p>DIWEDDARIAD AR Y CYNNYDD GYDA'R BIL I SEFYDLU SEFYDLIAD NEWYDD LLAIS Y DINESYDD</p> <p>I dderbyn diweddariad o ran cynnydd y Bil; gwnaed y pwyntiau isod yn benodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd y wybodaeth briffio a gyflwynwyd gan Fwrdd y CICau wedi ei rhannu gyda aelodaeth ehangach CIGGC a staff CIGGC. • Yn flaenorol, roedd y CICau wedi datgan na fyddent yn rhoi cefnogaeth i'r Bil heb yr hawl i ymweld gyda eiddo iechyd. Roedd y Bil wedi ei basio heb yr hawl yma, er hynny, roedd cod ymarfer wedi ei sicrhau i gynnwys yr hawl i ymweld gyda eiddo iechyd ac roedd y CICau wedi cytuno i symud ymlaen ar sail hyn. • Er bod y cod ymarfer statudol yn ddull grymus, roedd yn siomedig nodi mai ychydig iawn o gynnydd ymddangosiadol a fu wrth baratoi'r cod ymarfer yma. • Adroddodd yr Is-gadeirydd na fu unrhyw drafodaethau am y cod ymarfer yn Niwrnod Datblygu Bwrdd y CICau yn ddiweddar. • Cytunodd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog i siarad am y cynnydd y tu allan i'r cyfarfod yn barod am gyfarfod nesaf Bwrdd y CICau. 	<p>JA/PS</p>
<p>FC20.18 20.18(1)</p>	<p>DIWEDDARIAD Y CADEIRYDD A'R PRIF SWYDDOG Gwasanaethau Iechyd Meddwl</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfeiriodd y Prif Swyddog yr aelodau at adroddiad diweddar yr Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu a gyflwynwyd i Bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad BIPBC ar 28 Awst 2020. • Eglurodd y Prif Swyddog fod y ddogfen wedi ei pharatoi gan Mike Smith, Cyfarwyddwr Interim Nyrsio IMAD, BIPBC yn dilyn taith o amgylch y stad iechyd meddwl, yn fuan ar ôl iddo ddechrau yn y swydd. 	

- Dylid nodi bod yr adroddiad yn cynnwys meddyliau personol Mike Smith o ran IMAD.
- Mae CIGGC yn ystyried bod yr adroddiad yn rhoi cipolwg ac yn ddefnyddiol; roedd hefyd yn cadarnhau pryderon fu gan CIGGC am sawl blwyddyn o ran IMAD a'r diffyg cynnydd gyda hyn.
- Adroddwyd bod rhai uwch staff yn Adran IMAD BIPBC yn gwrthbrofi cynnwys yr adroddiad.
- Awgrymwyd y gallai fod yn ddefnyddiol ail-adrodd yr ymarfer ar ôl cyfnod o amser, er mwyn olrhain unrhyw gynnydd.
- Adroddwyd y bu newidiadau yn strwythur rheoli Adran IMAD; nid oedd Lesley Singleton bellach yn Gyfarwyddwr Interim IMAD gan iddi gymryd swydd y tu allan i'r bwrdd iechyd.
- Mae Teresa Owen wedi cymryd cyfrifoldeb gweithredol am Adran IMAD gan gyfuno'r portffolio yma gyda'i gwaith fel Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus a Dirprwy Brif Weithredwr.

20.18(2)

Gwasanaethau Fasgwlar

- Cynrychiolir CIGGC ar Grŵp Gorchwyl a Gorffen Fasgwlar BIPBC gan Adrian Drake –Lee a Richard Bladon.
- Er bod cynnydd addas wedi ei wneud y teimlad oedd fod hyn hyd yma hefyd yn araf.
- Roedd nifer o grwpiau cleifion wedi bod yn lobio CIGGC am gynnydd cyflymach a mwy o weithredu; ar hyn o bryd ychydig iawn oedd CIGGC yn gallu ei wneud fel mae'r bwrdd iechyd yn parhau i weithio drwy'r camau gweithredu.
- Roedd y gwaith adolygu a dadansoddi a wahoddwyd wedi ei gwblhau a'i gytuno; ac roedd yn amser i'w gyflwyno.
- Roedd y gwaith o sgrinio 'Abdominal aortic aneurysm (AAA)' wedi cael ei effeithio gan y pandemig; roedd y gwaith sgrinio bellach wedi ail-ddechrau. Cafwyd nifer o gyfeiriadau i gael llawfeddygaeth ond adroddwyd bod cleifion yn gyndyn o fynychu gan eu bod yn poeni am ddal COVID-19.
- Mae'n ymddangos bod triniaethau 'Arteriovenous (AV) fistula' wedi cynyddu gyda'r nifer ar y rhestr aros yn gostwng.
- Mae nifer y gwelyau fasgwlar sydd ar gael yn broblemus; nid oes unrhyw welyau fasgwlar yn benodol yn Ysbyty Gwynedd. Roedd heriau i staffio y 18 gwely fasgwlar yn Ysbyty Glan Clwyd oherwydd nifer y swyddi gwag.
- Roedd y llwybr i broblemau traed diabetig yn parhau ar lefel gymunedol.
- Yn flaenorol, roedd crawniadau cesail y forddwyd (Groin abscesses) yn cael eu trin ar lefel fasgwlar leol yng ngogledd Cymru; roedd y rhain yn awr yn digwydd drwy lawfeddygaeth gyffredinol.
- Bydd CIGGC yn cynnal arolwg profiad cleifion gyda chleifion gwasanaeth fasgwlar i ddarparu lefel o annibyniaeth i alluogi cleifion i roi adborth. Cynhelir yr arolwg yma pan fo BIPBC yn fodlon bod y Gwasanaeth Fasgwlar mewn safle y cynlluniwyd iddo fod ddwy flynedd yn ôl.
- Fel arfer mae CIGGC yn parhau yn ymroddedig i dderbyn adborth

	gan gleifion sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth fasgwlar yng ngogledd Cymru, a defnyddir hyn i ddilysu profiad y claf a'i rannu gyda thîm adolygu BIPBC.	
FC20.19 20.19(1)	COFNODION I dderbyn a chymeradwyo cofnodion y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2020. <ul style="list-style-type: none"> • Penderfynwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2020 yn gofnod cywir o'r cyfarfod. 	
20.19(2)	Materion yn Codi oedd ddim ar y Rhaglen Nid oedd unrhyw faterion yn codi.	
FC20.20	CYNLLUN GWEITHREDU CYDRADDOLDEB AMRYWIAETH A HAWLIAU DYNOL Darparodd Linda Harper y diweddariad isod gyda'r sylwadau a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> • Roedd y papur briffio EDHR diweddaraf o ran Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol CIGGC wedi ei rannu gyda'r aelodaeth ehangach; bydd y diweddariad nesaf yn cael ei ddarparu ym mis Tachwedd 2020. • Cafwyd trafodaethau am y broses o gael 'tystysgrif nodi rhyw'; bydd y broses yn cael ei gwneud yn haws. • Roedd hyfforddiant Cenedlaethol EDHR Bwrdd y CICau yn mynd i gael ei gynnal o belter i aelodau CIGGC; cwestiynodd Linda Harper beth o'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ar y ffurflen ymaelodi â'r cwrs. Nododd y byddai'n adrodd yn ôl wedi'r hyfforddiant. 	LH
FC20.21 20.21(1)	Y GYMRAEG Safonau'r Gymraeg <ul style="list-style-type: none"> • Mae CIGGC yn parhau i gydymffurfio gyda'r 110 o Safonau. Mae'r 6 CIC arall a Bwrdd CICau Cymru wedi derbyn dirymiad ffurfiol o ran rai o'r safonau gan Gomisiynydd y Gymraeg. • Mae CIGGC wedi paratoi a chyflwyno ei adroddiad blynyddol ar gydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg am y cyfnod 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r datbygiadau yn sefydliad CIGGC yn ystod y flwyddyn i gryfhau ei wasanaethau yn y Gymraeg. Cyhoeddir yr adroddiad ar y wefan i gwrdd â'r gofyniad a nodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. • Roedd system peiriant ffôn ateb wedi ei gyflwyno i sicrhau bod y rhai oedd yn galw swyddfeydd CIGGC oedd yn dymuno siarad yn y Gymraeg ddim yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r rhai sy'n ffonio drwy gyfrwng y Saesneg. • Cafwyd nifer fechan o gwynion ar ddechrau'r system yma; ers darpariaeth ffonau symudol i eiriolwyr. Nid oedd CIGGC wedi derbyn mwy o gwynion o ran diffyg mynediad oherwydd cyflwyno'r gwasanaeth ateb ffôn. • Gyda llawer o staff CIGGC yn gweithio o gartref nodwyd na ellir gwirio'r peiriant ateb o bell; mae negeseuon yn cael eu trosglwyddo i'r aelod cywir o staff gyda'r galwyr yn derbyn galwad yn ôl ymhen cyfnod byr. 	
FC20.22 20.22(1)	UNRHYW FATER ARALL Ni thrafodwyd unrhyw fater arall.	



FC20.23	DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF Hysbysir pawb am ddyddiad a threfniadau cyfarfod y Cyngor Llawn nesaf.	
	Diolchwyd i bawb am ddod i'r cyfarfod. Daeth y cyfarfod i ben am 12.01pm.	

CADEIRYDD

DYDDIAD